Blwyddyn Newydd Dda!

Gair bach Bethlehem 39

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** – rhif 39 (Rhifyn canol Ionawr 2023)

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

'Does dim angen egluro'r olygfa uchod! Mae rhagor o luniau o'r Ddrama Nadolig ar dudalen 5 a 6. Ar ddiwedd yr oedfa, cyflwynwyd blodau i Heulwen Jones a Delyth Evans (isod) am eu holl waith yn paratoi'r plant.

Do, fe alwodd Sion Corn!

Wedi i'r Ddrama Nadolig orffen, daeth ymwelydd poblogaidd iawn i blith y rhai fu'n ymddangos yn y cyflwyniad – neb llai na Sion Corn ei hunan. Roedd wedi galw heibio ar ôl clywed am y gwaith caled wnaed gan aelodau'r Ysgol Sul.

Neges Delwyn

Charles a Huw a Pete a'r Pregethwr!

Ga'i ddechrau wrth ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd, gyda diolch am eich cwmni a'ch cefnogaeth yn ystod y flwyddyn sydd wedi mynd heibio. Deuddeg mis, pedwar tymor, blwyddyn gron.
Cylch amser, a dyma ni'n dechrau'r cylch o'r newydd ym mis Ionawr 2023. Ac mae'n syndod cymaint o bethau sy'n troi mewn cylchoedd. Er enghraifft, yn ein gwasanaeth ar Ionawr y cyntaf fe droisom ni at lyfr y Pregethwr, a'r bennod enwog ar "Amser". Nawr, ry'n ni'n gyfarwydd iawn â'r geiriau, ond ry'n ni hefyd yn gyfarwydd â'r gân "Tro! Tro! Tro!" sydd wedi seilio ar eiriau'r Pregethwr.
Fe addaswyd y geiriau gan Pete Seeger, canwr gwerin Americanaidd oedd yn fawr ei ddylanwad nôl yn y 50au a'r 60au. Yna fe ganodd Mary Hopcyn fersiwn yn y Gymraeg, y geiriau Cymraeg gan Eic Davies. Eic Davies wrth gwrs oedd tad ein Huw Llywelyn Davies ni!
Bu Huw yn rhan o frwydr yr iaith nôl yn y 60au, ond hefyd; oherwydd ei waith fel sylwebydd rygbi, roedd yn gyfarwydd iawn â'r dadlau ffyrnig yn yr un cyfnod oherwydd Apartheid yn Ne'r Affrig. Dwi'n siŵr iddo glywed y gân "We shall Overcome" neu "Fe Orchfygwn Ni" mewn sawl Eisteddfod yng Nghymru ac ar sawl cae rygbi ar draws y byd, wedi'r cyfan roedd yn anthem i sawl mudiad protest.
A'r dyn na'th boblogeiddio'r gân? Wel, yr un dyn na'th boblogeiddio "Tro! Tro! Tro!", ie, Pete Seeger.
Ond, ond, ond,…. nid cân wreiddiol mohoni. Addasiad yw fersiwn Seeger o fersiwn Lucille Simmons, ac fe ganwyd y gytgan mewn streic gweithwyr tybaco yn Charleston ym 1945. Ac addasiad yw fersiwn Simmons o hen emyn, a gyfansoddwyd ym 1901 gan y Parchedig Charles Albert Tindley o Philadelphia…

"The world is one great battlefield,
With forces all arrayed;
If in my heart I do not yield
I'll overcome some day."

Fe gyhoeddwyd yr emyn gyda'r adnod yma o lythyr Paul at y Galatiaid uwch ei ben:-

"***Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd***
cawn fedi'r cynhaeaf yn ei amser."

Ie, amser i hau, ac amser i fedi, a dyna ni nôl gyda'r hen Bregethwr, nôl lle ddechreuon ni, a ryw gylch bach wedi'w gwblhau.
Nawrte, beth o'n i'n dweud ar y dechrau? O ie! Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

Delwyn.

Pen-blwydd Hapus iawn ar ddydd y Nadolig i Brenda Jones, Radur. Ar ddiwedd yr oedfa fe gafodd y gynulleidfa gyfle i ganu'r cyfarchion arferol iddi!

Cofiwch am ein rhifyn nesaf!

Byddai'n braf cael gair gennych erbyn Mawrth 20

UNRHYW BWNC ~ UNRHYW HYD

Arferion Blwyddyn Newydd ***Delyth Evans (Y Barri)***

Dŵr Blwyddyn Newydd

Yn ein haddoliad ar Ddydd Calan cawsom wybodaeth gan Delwyn am arferion Dydd Calan sy'n perthyn i wahanol wledydd – rhai ohonynt yn fwy rhyfedd na'i gilydd! Soniodd am ran ogleddol fy Sir enedigol i lle mae'r arfer o ddathlu'r Hen Galan yn dal i fod yn ardal Cwm Gwaun.

Ond yn ne'r Sir roedd yna arfer gwahanol. Yn gynnar ar fore'r Calan byddai grwpiau o fechgyn ifanc yn mynd i'r ffynnon i nôl dŵr mewn jwg neu bot. Byddent yn cario sbrigyn bythwyrdd – darn o gelyn, iorwg neu rosmari efallai - ac wrth ddod ar draws pobl ar yr heol byddent yn defnyddio'r sbrigyn i daenellu dŵr ar wyneb a dwylo'r fforddolion ac yn derbyn ychydig geiniogau am y drafferth. Wrth fynd i fewn i dai byddent yn taenu Dŵr Blwyddyn Newydd ymhob ystafell ac os byddai rhai o'r trigolion yn dal yn y gwely byddent yn mynd i'r llofft ac yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda iddynt! Os na chaent fynediad i dŷ yna byddent yn taenu dŵr ar y drws. Roedd rhai yn hoff o'r arfer ac yn talu'r bechgyn hanner coron neu hyd yn oed coron i ddod heibio gyda'r dŵr.

Wrth daenu'r dŵr byddent yn adrodd neu yn canu y pennill canlynol:

Here we bring you water from the well so clear,
For to worship God with, this Happy New Year;
Sing levy dew, sing levy dew, the water and the wine,
With seven bright gold wires, the bugles that do shine;
Sing reign of fair maid, with gold upon her toe,
Open you the west door, and turn the old year go;
Sing reign of fair maid, with gold upon her chin,
Open you the east door, and let the new year in.

Mae rhai yn dyfalu mai hwyrach y Forwyn Fair yw'r 'fair maid' ac mai Seisnigo 'llef i Dduw' yw'r 'levy dew'. Cred rhai bod a wnelo'r arfer â'r hen gwlt paganaidd o addoli wrth ffynhonnau ac y gwnaed hynny'n dderbyniol i Gristnogaeth drwy gyfeirio at y Forwyn Fair. Does neb wedi ceisio dehongli'r cyfeiriad at y 'seven bright gold wires' na'r 'bugles that do shine'. Fel llawer hen arfer mae'r rheswm gwreiddiol amdano wedi hen ddiflannu ond mae'r cof amdano yn rhan o'n hetifeddiaeth werinol gyfoethog.

Esyllt am ddiolch

Gair i **ddiolch o galon** am yr holl gyfraniadau gan deulu Bethlehem i achos Parkinsons yn ogystal â'r negeseuon caredig o anogaeth a'r chwifio a gweiddi brwdfrydig gan gefnogwyr o gwmpas y cwrs hanner marathon yn ddiweddar. Roedd gweld Mair a Dylan John ger Llyn y Rhath yn hwb oedd yn werthfawr tu hwnt yn y milltiroedd olaf, lle roedd y blinder a'r boen yn cymryd gafael. Dwi'n falch tu hwnt o fod wedi gallu cwblhau'r ras a chodi dros £1300 i achos sydd mor agos at fy nghalon.
Traed lan am sbel nawr!

Esyllt Green

CWRDD MERCHED Ionawr

Ann Jones, Pentyrch

A dyma ni wedi cyra'dd cyfarfod cynta' 2023 o'r Cwrdd Merched, a pha ffordd well i ddechre' nag yng nghwmni Shân Osbourne a'i hoff lyfrau.

Fyddai'n edrych mlân i'r cyfarfod hwn bob blwyddyn, gan fod Shân wastad yn cynnig gwledd o ddeunydd darllen gwahanol ar ein cyfer!

Tro yma, y llyfr cynta a gyflwynodd oedd **'Lessons in Chemistry'**, nofel gynta Bonnie Garmus. Dyma lyfr sy' wedi ennill llawer o wobrau 'Llyfr y Flwyddyn' ac ati. Sut allwn i beidio ca'l fy nhemtio i'w ddarllen.

Wedyn fe dda'th **'This is happiness'** gan Niall Williams. Nofel hudolus i godi calon.

Ar y pegwn arall, **'The Promise'** gan David Galgant - nofel bwerus a thorcalonnus ond gwerth ei darllen.

Roedd y rhestr syniade'n hir a dyma rai o'r teitlau i'ch temtio:

'Disgrace' *gan JM Curtsey.*
'American marriage' *gan Tayari Jones.*
'Anything is possible' *gan Elizabeth Strout.*
'The heart's invisible furies' *gan John Boyne'.*
'The Marriage Portrait' *gan Maggie O'Farrell.*
'The invention of wings' *gan Sue Monk Kidd.*
'Rhyngom' *gan Sioned Erin Hughes.*
'Tyfu'n Gerddor' *- Hunangofiant Alun Guy.*
'Adar mud' *gan Sian Rees.*

A dyna ni. Prynhawn hyfryd, heb anghofio'r 'Eirlysiau' a ddechreuodd y cyfarfod (Eirlys Lamb ag Eirlys TJ) a'r Eirlys a ofalodd am y baned (Eirlys Cerith). Diolch i bawb.

Suliau Bethlehem –Ionawr - Mawrth

Ionawr 22 – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
Ionawr 29 – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

Chwefror 5 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn - a Bedydd
Chwefror 12 - Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Samuel
Chwefror 19 - Oedfa yng ngofal y Cwrdd Merched
Chwefror 26 - Oedfa dan ofal y Parchedig Ddr. R. Alun Evans

Mawrth 1af (Bore Mercher) – Oedfa Gwyl Ddewi am 9:30 a.m.

Mawrth 5 - Gwyl Ddewi yng ngofal yr Ysgol Sul (a Chymun.)
Mawrth 12 *- Sul y Cyfundeb: Oedfa a gweithgarwch yng Nghanolfan yr Urdd yn y Bae*
Mawrth 19 – Oedfa dan ofal Delwyn Siôn
Mawrth 26 - Oedfa yng ngofal aelodau Gwaelod-y-garth a Ffynnon Taf

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn o

Gair Bach Bethlehem

A diolch i chi am ei ddarllen!

Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Mawrth 20, 2023: *tycnau@aol.com*

Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul

Sul, Rhagfyr 18, 2022

Cychwyn gwahanol i'r cyflwyniad y tro hwn – gwaith animeiddio gyda help Anthony a Glenys (chwith) – a'r tîm welir ar y dde uchod.

Isod- dyma'r cast llawn yn yr olygfa olaf – gyda'u henwau ar y sgrin fawr (dde).

Mair	Sara
Joseff	Wil
Gabriel	Gwenni
Caspar	Luned
Melchior	Alys
Balthasar	Pegi
Lletywraig	Lea
Angylion	Esther, Anni, Clara, Anna, Nanw a Besi Ann
Bugeiliaid	Elis, Steffan, Trystan, Tomos a Deio

Rhagor o luniau ar y dudalen nesaf

Isod – y cymeriadau, fwy neu lai, yn nhrefn eu hymddangosiad yn y stori

Naw Llith a Charol

Pnawn Sul, Rhagfyr 11, 2022



Fel pob blwyddyn, cafwyd cyfraniadau gan unigolion a phartïon yn ystod yr oedfa. Dyma ddwy dudalen o luniau'r cyfranwyr a'r gynulleidfa. Ac mae bonws ychwanegol ar y drydedd dudalen!



Mae ein diolch unwaith eto i gôr CF1 am ymweld â ni ac i Delyth Evans am drefnu'r cyfan.

Nawr, trowch i'r dudalen nesaf i ddarllen y gerdd gafwyd gan Rhys Powys ar y noson...

Nadolig Cwpan y Byd

Rhys Powys

Fe chwiliais am gerddi
I'w darllen yma heddi,
Ond doedd gan Cynan na Waldo
Ddim byd am Ronaldo...

Dim sôn gan T. Gwynn
Am Son Heung Min.

Dim oll gan Dic am Pulisic
Alan Llwyd? "Cefen y rhwyd"?
Dim gair!
Cywyddau di ri'
Englynion yn gyfresi -
Dim sill am De Bruyne na Lionel Messi.

Gwenallt a Crwys... dim byd o bwys.
Ieuan Brydydd Hir... dim lot â dweud y gwir.
"Hugo Lloris" gan Prosser Rhys?
Dim 'chance'!

O'i ddarllen yn fanwl, sawl gwaith o'r bron
Doedd T.H. a'i "Ni allaf ddianc rhag hon"
Ddim am ergyd Richarlison
Mewn gwirionedd.
A dyw ei "Nid yw hon ar fap" e
Yn cyfeirio dim at Kylian Mbappe
O gwbwl.
Trwbwl.

Dim byd o sylwedd gan Tudur Dylan.
Bydd jyst rhaid fi sgwennu rhywbeth fy hunan...

Es i ddim i Qatar i ddilyn y ddraig.
Arhoses i adre, i wylio 'da'r wraig.

Welon ni Gymru yn erbyn Iran
A thîm Costa Rica yn curo Japan,
Bois Cameroon yn smasho Croatia,
Ronaldo a'i ffrindiau yn stryglan 'da Ghana,
Lloegr yn chwarae yr US of A
A'r Saudis yn rhoi Lionel Messi'n ei le.

Fe steddes i ar soffa,
Â bwced yn lle het,
A hysbysebion cyson
Yn cynnig sawl "FREE BET"...

Pwy fydd yn sgorio? Pwy fydd yn llawio?
Fydd hi yn grasboeth - neu fydd hi yn glawio?
Sawl gôl, a sawl cerdyn, croesiadau, corneli?
Pa liw fydd y crysau? Pa siâp fydd y peli?

Sgôr hanner-amser Korea/Brazil?
"In-play Bet Builder" gan William Hill.

Roedd modd gweld yr "odds" ar dipyn o bopeth
A ngadael yn chwysu mewn coblyn o benbleth.
Ac yn lle hap-chwarae am sawl "camsefyllian"
Aeth popeth yn fet yn fy mywyd fy hunan...

Ynghanol y gêm beth fydd y wraig yn hoffi?
Diod o Horlicks neu baned o goffi?
"Be gawn ni i de 'te? Spageti neu reis?"
"A be gawn ni wedyn? Welsh Cake neu Mins Peis?"
Pwy fyddai'r olaf i ddiffodd y teli?
Pwy fyddai'r cyntaf i godi o'r gwely?
Pwy fyddai'n symud i ateb y ffôn...?
Aeth popeth yn gawdel o fetio'n y bôn.
"Evens" neu "acca" neu "drideg i un",
Rôn i'n chwarae yr "odds" ar fy mywyd fy hun.

Fe gollais fy mhen; sylweddolais mewn chwys...
Mae hi'n beryg o hawdd i chi golli eich crys.

A chofiwn ei bod hi yn llawer iawn gwaeth
I'r trueiniaid hynny sy'n wirioneddol gaeth.
Y rhai sy'n bryderus, y rhai dan y don,
Y rhai sydd â phwysau y byd ar eu bron.

Gobeithio daw cysur, dros ddyddiau yr ŵyl
I'r rhai sydd yn ddistaw, y rhai sy'n ddi-hwyl.

Gobeithio daw heddwch i'r dioddefwyr tawel
Sy'n clywed yr oerfel yn sibrwd yr awel,
Sy'n unig, sy'n isel, sy'n becso, sy'n brifo -
Y rhai enillodd frwydr i ddod yma heno...

Os bydd Geni y Baban, fel ganwaith o'r blaen,
Yn cynnig adferiad i'r rhai sydd dan straen
Bydd gwyrth y Nadolig "yma o hyd" -
Waeth pwy fydd yn ennill Cwpan y Byd.

NOSON SWPER BETHLEHEM

Carolau, bwyd ar blât, creu addurniadau, cwis a llinell goll – dyna'r cynhwysion ar gyfer noson o ddiddanwch yn y Festri, nos Wener, Rhagfyr 16. Daeth yr elfennau creadigol i'r amlwg ar y byrddau wrth ymateb i dasg osodwyd gan y beirniad, Marian Ifans, sef creu torch addas i'w rhoi ar sil-ffenest y capel ar gyfer y Sul. Gobeithio i chi sylwi arnyn nhw!

Y Bwrdd Buddugol – y dorch a'r pen-dylunydd llawen, ond ble mae ei gyd-aelodau tybed? Llongyfarchiadau i holl aelodau'r bwrdd!

Y Bardd Buddugol – dan y ffugenw "Twpsyn" – yn ei gadair a than ei goron am ei ateb ysgubol i dasg y llinell goll:

Ar y plên o Qatar, bum yn ffodus –
Cael 'ypgred' i sedd fwy cyfforddus;
Yn eistedd agosa'
Pwy dybiech oedd yna?
"Dim syniad, rwi mor anwybodus."

Llongyfarchiadau i Huw!

CASGLIADAU BETHLEHEM AT ACHOSION DA

Ynghanol ein tymor o dderbyn a rhoi, mae'n briodol oedi am ennyd i gael ei hatgoffa am yr ymgyrchoedd elusennol y bu Bethlehem yn rhan ohonyn nhw, yn lleol a byd eang. Mae'ch cyfraniadau wedi bod yn rhai cyson a theilwng ar hyd y blynyddoedd. Yn aml, mae'r trysorydd, Peredur Evans, wedi sicrhau fod rhodd yn mynd ar unwaith mewn amgylchiadau lle mae brys i dderbyn cymorth – a bod yr eglwys wedi hynny'n casglu tuag at yr angen hwnnw.
Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Pwt am ei holl waith ar hyd y blynyddoedd. Isod, mae e wedi crynhoi mewn taenlenni hanes ein cyfraniadau dros 15 mlynedd.

YMGYRCHOEDD DEWIS ELUSENNAU				
Cyfnod	**Elusen**	**£**		**Cefnogaeth Pellach**
2008/9	Bangla Cymru	4,833		
2009/10	Motor Neurone	3,025		
2010/12	Ystafell Fyw	5,122		Rhoddion blynyddol o £500
2012/13	Ambiwlans Awyr Cymru	5,902		
2013/16	Banc Bwyd Caerdydd	3,000		Rhoddion bwyd cyson a £5000 ers y clo
2019/19	Ysbyty Felindre	6,375		
2019/22	Canolfan y Drindod	4,000		

RHODDION CYSON I ELUSENNAU															
	Ers 2008/9	08-09	09-10	10-11	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19	19-20	20-21	21-22
Cyngor ar Alcohol - Ystafell Fyw		1,000	500	500	500	680	500	250	385	500	500	500	500	500	500
Cymorth Cristnogol : Burma		1,000													
TRAVOL		1,000													
Cymorth Cristnogol		407	548	943	1,895	300	300	430						1,000	
Cymorth Cristnogol : Gaza / Undeb		1,000	850												
Cymdeithas y Beiblau		250	250	300	300	300	275	200	200	200	300	300	300	300	300
Coleg yr Annibynwyr		250	250		250		400		400	250					
Cymorth Cristnogol : Haiti			2,500												
Cymorth Cristnogol : Llifogydd Pacistan				1,000											
DEC : Dwyrain Affrica					1,500										
DEC : Syria						1,000									
DEC : Y Ffilipinas							1,000								
DEC : Ebola								1,000							
Undeb yr Annibynwyr apêl Haiti								700							
Cardiac Rehabilitation De Morgannwg									1,600						
Lluniau Llafar Cymru										400					
Cymorth Cristnogol : Ymgyrch Ymfudwyr										1000					
Dec : Chwefror 2017										1000					
Cymorth Cristnogol : Ymgyrch Rohinga											1000				
Cymorth Cristnogol : DEC Kerela												1000			
Cymorth Cristnogol : DEC Tsunami Sulawesi												1500			
Cymorth Cristnogol : DEC Ystorom IDAI												1000			
Undeb yr Annibynwyr apêl Madagascar													2000		
Banc Bwyd Caerdydd													2000	2000	1000
Sefydliad Huggard													500		
Cymorth Cristnogol : DEC Afganistan															500
Cymorth Cristnogol : DEC Wcrain															1500
Urdd Gobaith Cymru : Ffoaduriaid															1000
	Cyfanswm	4,907	4,898	2,743	4,445	2,280	2,475	2,580	2,585	3,350	1,800	4,300	5,300	3,800	4,800

Os hoffech gyfrannu rhagor at unrhyw ymgyrch, gall Peredur, ein trysorydd, eich rhoi ar ben y ffordd. Mynnwch air ag e ar ddiwedd oedfa neu e-bostiwch air at: pwtevans@gmail.com.

PLYGAIN BETHLEHEM Ionawr 15 2023

O'r diwedd cafwyd Plygain "agored" unwaith eto, ym Methlehem. Efallai y cofiwch chi mai un wedi ei gyfyngu i aelodau Bethlehem yn unig oedd y drefn llynedd, gan fod sgil-effeithiau'r pandemig yn dal i'n bygwth. Ond eleni roedd cyfle i groesawu hen ffrindiau cyfagos. Daeth cynulleidfa niferus ynghyd ac, fel y gwelwch o'r llun isod, yr aelodau yng Ngwaelod-y-garth oedd y rhai cyntaf i gamu ymlaen i ganu.



Dwy law fedrus Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd, oedd wrth yr offeryn a hi hefyd wnaeth gymell yr uchod i gyfrannu i'r addoliad. Fel o'r blaen, Rhodri-Gwynn oedd yn llywio'r oedfa – mor gelfydd ag arfer.

Cafwyd cyfraniadau gan bartïon ac unigolion sy'n wynebau a lleisiau cyfarwydd i blygeiniau Bethlehem yn y gorffennol di-Govid – fel y gwelwch o'r lluniau isod.

Rhagor o luniau'r Plygain ar y dudalen nesaf.



Diolch i bawb ddaeth ynghyd, yn gantorion a chynulleidfa. Roedd yn braf gweld pawb unwaith eto. Mae'r cyfan wedi ei gofnodi ar fideo a (diolch i Wyn a Heulwen) gallwch weld yr oedfa yma: https://youtu.be/Vo761bCXxCA

OEDFA BORE'R NADOLIG 2022

Dyma'r rhai fu'n cymryd rhan yn yr oedfa ar Fore'r Nadolig – ac yn eu plith un oedd newydd gyrraedd o Unol Daleithiau America, sef Lowri Sion (ail o'r chwith, isod). Rhodri a Delyth (uchod) oedd yn gyrru'r cyfan ymlaen, ac yn achos Delyth, cyfeilio'n fyrfyfyr i Marged, yn absenoldeb Delwyn, oedd gartre'n dost ar fore'r Ŵyl.

Dyna ni am y tro... Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd.

Cofiwch am ein rhifyn nesaf! Dedlein Mawrth 20, 2023

UNRHYW BWNC ~ UNRHYW HYD

Anfonwch air neu lun at Ifan Roberts – tycnau@aol.com